Tud 1.

Drafft Cofnodion Cyfarfod 5ed Rhagfyr 2024

Presennoldeb- Eirwyn Thomas, Annwen Hughes, Gwynfor Owen, John Evans, Helen Johns, Kevin Titley, Luise Vassey.

Ymddiheuriadau – Robin Ward, Jane Taylor Williams, Nia Jones

Datgan Buddiant – Annwen Hughes materion Cynllunio

Gair gan y Cadeirydd – yn absennoldeb y cadeirydd bu i Eirwyn Thomas gadeirio y cyfarfod , drwy groesawu pawb i'r cyfarfod ar noson eithriadol o aeafol. Croeso i Arfon Hughes i gyfieuthu, Cydymdeimlwyd gyda Kevin Titley yn ei brofwdigaeth o golli ei dad yn ddiweddar.

Derbyn y cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir.

**Cais Cynllunio**

*Cais Rhif: NP5/62/LU447

Cais am Dystysgrif Defnydd Arfaethedig ar gyfer defnydd tŷ, a ddefnyddir ar hyn o bryd fel

ail gartref (Defnydd Dosbarth C5), fel llety gwyliau tymor byr (Defnydd Dosbarth C6)

Coed-y-Llechau, Llanbedr. LL45 2NB

Cyfeiriad Grid: 259160 326450

Sylwadau – dim gwrthwynbiad i hyn.

*Cais Rhif NP5/62/399A a NP5/62/399B sef rhyddhau amodau ar ganiatad cynllunio 12.11.2018 yn ymwneud ar cynlluniau ffordd newydd Llanbedr .

399A -Rhyddhau amod 4 sef A mgylcheddol Adeiladu: (parthed llwch wrth adeiladu : rhyddhau amod 6 ( parthed slumod -cofrestr ymrwymiadau: a 7 (asesiad risg bioddiogelwch),ymdrin a petha fel japanesse knotweed, himalayan ballsam wrth ymdrin a'r tirwedd

399B – Eto rhyddhau amodau fel a ganlyn – amod 8 system (asesiad tirgryniad: ); swn ac ati; rhyddhau amod 9 (system rheoli llwch); ac amod 10 (arolwg nodweddion dwr)

Hyn i gyd i'r tir i'r gorllewin o'r Pentref.

Cafwyd trafodaeth parthed hyn, rhai wedi darllen yr amodau ac eraill heb allu eu hagor. Un Cynghorydd wedi trafferthu i olrhain y cais gwreiddiol. Argymhellion i gefnogi hyn, A.H yn datgan diddordeb.

Yn falch o weld bod rhywbeth yn mynd ymlaen parthed cadw y cais cynllunio yn fyw.

Pasiwyd fel Cyngor i gefnogi hwn.

**CYLLID – presept**

Taliadau – angen talu am y 2 goeden nadolig £48 (cynnwys TAW)

Aethpwyd drwy y spread sheet yn fanwl parthed praeseptu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Pasiwyd hefyd i gael pwyllgor 9.1.25 i drafod ymhellach. Erbyn hyn byddem wedi derbyn manylion trethiannol aelwydydd Llanbedr.

Tud 2.

Yn y Banc – diwedd Hydref £24544.26

Yn y banc 5.12.25 £24436.26

Wedi talu

Llogi Neuadd x2 £20

Coed Nadolig £48

Delyth Thomas £40 gwefan

Eitemau sydd yn annisgwyl ac yn codi yr angen am fwy o gyllid yw CCTV camerau – dal i chwilio am grantiau tuag at hyn.

Hefyd wal terfyn rhwng Ysgol a'r Neuadd – angen chwilio am grantiau i helpu tuag at y costau yma £5500

Cynnydd gan bod angen pwyntio y ddwy ochr. Gorfod hefyd llogi barriers diogelwch, er mwyn gallu gwneud y gwaith.

Cylch Meithrin – ar ddeall bod yr Arweinydd wedi ymddiswyddo, a dal i bwyso arnynt am gyfrifon cyfredol. Maent angen cael cyfeillion meithrin er mwyn sicrhau codi arian at y cylch.

Be nesaf ? Angen cael Pwyllgor gyda hwy ar ol derbyn cyfrifon.

Cyfieuthu ar y pryd – bod Arfon Hughes i ddod atom bob mis ar gyfer hyn.

Heb dderbyn anfoneb am y gwaith torri gwrych y fynwent hyd yma.

Llwybrau Cyhoeddus – Wedi hysbysu am waith tendro yn y Llais Ardudwy. Angen rhoi ar y wefan hefyd. A unrhyw waith arall,

**Materion Cyngor Gwynedd**

**Ffordd - datblygiadau**

Ynglŷn a diweddariad mae Llinos Angharad wrthi'n casglu gwybodaeth gan bawb ynglŷn a'r gwaith yn Llanbedr wythnos yma, a bydd yn anfon y Newyddlen draw wythnos nesaf ac yn rhoi ar y wefan.

*Ynglŷn a'r cyllid am CCTV, nid yw'r grant rydym wedi derbyn ar gyfer y gwaith WelTAG yn addas ar gyfer cyllido rhywbeth fel hyn ac nid oes cyllid arall ar gael ar hyn o bryd yn adran ni i ariannu CCTVs. Er hynny, mae Peter Simpson Rheolwr Gwasanaethau Stryd (peterjohnsimpson@gwynedd.llyw.cymru) yn y Cyngor yn gwybod llawer am CCTV ac efallai byddai'n ddefnyddiol i chi gael sgwrs gydag o. Mae o'n deall yr ochr gyfreithiol a chyfyngiadau cyfreithiol, pa fath o ddarpariaeth sydd ar gael a lefelau o wasanaethau a monitro sydd ar gael gyda CCTV. Hefyd, efallai y byddai'n gwybod os oes grantiau ar gael i gyllido beth rydych yn gobeithio cael i Llanbedr.*

Y Fynwent – wedi rhoi hysbys yn Llais Ardudwy parthed diwrnod clirio 11.1.25

Cae Chwarae – wedi sicrhau bod Play inspection yn gwneud y gwaith archwiliad am eleni. Gweld sut bydd petha. Angen cysylltu efo GLJones.

Gwaith Tendro – wedi rhoi hysbys parthed gwaith y fynwent a llwybrau cyhoeddus. Nid oedd Will Hooban yn awyddus i dorri yr hen fynwent am yr un pris a eleni. Felly rhoi allan i dender.

Mae yn fodlon gneud cae chwarae am yr un pris. Gallu defnyddio y sit on mower i wneud y gwaith yma. Fel y soniwyd uchod bydd hysbyseb ar y wefan hefyd.

**Cyfarfod Cynghorau Ardudwy**

Nododd y Clerc bod y cyfarfod ar y 13 o Dachwedd wedi bod yn ddefnyddiol.

O hyn allan gelwir y cyfarfodydd hyn yn Fforwm Cynghorau Ardudwy. Cyfarfod nesaf ym mis Chwefror.

Materion a drafodwyd oedd fel a ganlyn

- HAL – dim angen cyfeirio e byst parthed hwn i'r Fforwm
- Gwarchod Plas Tan y Bwlch – un Cyngor yn awyddus i helpu
- Datblygiadau ffordd Llanbedr – o ddiddordeb i bawb
- TFW – toriadau yn y gwasanaethau a rhannu gwybodaeth deiseb
- CCTV = Talsarnau yn rhannu gwybodaeth
- Gwefan gymraeg ar gyfer Bro Ardudwy ? (3 aelod o Lanbedr yn unig ar zoom)

Adroddiadau Cynghorwyr Sir

Cynghorydd Gwynfor Owen –

1. Goleuo Llanbedr – noson wych, llongyfarchiadau i'r trefnwyr.
2. Siom o glywed am ddiffygion Cylch Meithrin ac ymddiswyddiad yr Arweinydd. Pawb yn ymweld yn hapus a chydweithio yn y noson goleuo.
3. Wedi methu y cyfarfod Huchenfeld diweddar.
4. Cyfarfod rheilffordd y Cambrian. Neb yn bresennol o TFW. Gale Yn absennol oherwydd iechyd. Angen i'r Clerc anfon manylion TFW diweddara at GO parthed Llanbedr. Llanbedr a Cricieth yw'r 2 Gyngor gorau am anfon sylwadau i'r Pwyllgor Rheilffordd y Cambrian.
   Nododd GO bod modd i Cynghorwyr arsylwi dros zoom am y cyfarfod. Tybed a oes modd codi y mater y bydda pob Cyngor yn gallu anfon cynrychiolydd i'r pwyllgor yma

Cynghorydd Annwen Hughes

1. Noson dda goleuadau Nadolig
2. \carafan wedi ei symud at Fferm Gwynfryn Farm.
3. Bod G. Price wedi torri y gwrych ger Capel Gwynfryn.
4. Nia Jeffreys, Portmadog fydd olynydd Dyfrig Siencyn fel Arweinydd Cyngor Gwynedd
5. Llongyfarchiadau i Cwmni Rhaeadr Nantcol am eu llwyddiant diweddar – fel y camp site gorau drwy Brydain. Angen anfon gair atynt i'w llongyfarch.
6. Angen clirio cwymp y dail.

Faterion Eraill

1. Huchenfeld - trefniadau i fynd i Huchenfeld Medi 2025

Criw y pwyllgor yw

Helen, Luise a Kevin, Jo, Suzanne, Goronwy, Emsyl, Sue Mc Donald, G.Price, Ben.  80 mlynedd ym mis chwefror ers y drychineb – saethu milwyr prydain a difrodi y feithrinfa yn Phorseith

2. KT -  nodi angen clirio dail ger Capel Moreia, a tynnu sylw eto  nad yw gwaith trwshio y manhole wedi ei wneud ger  Ty Olaf.
3. Morglawdd Llandanwg – dechrau erydu – a mae'r mor yn gwthio y tu ol i'r dyfais haear atal llifogydd.  Am anfon lluniau ymlaen i'r Clerc ac i Gwynfor Owen.

Angen rhybuddio NRW o hyn.  Mae ganddynt arwyddion ger y safle.

4. JW – mater o waith bler ar y maes parcio ger Hafod y Bryn / Cypla – gwaith Parc Cenedlaethol.  Annwen am ddelio gyda hyn.

Dymunodd Eirwyn Thomas Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cyfarfod nesaf 9.1.25 – neilltuo ar gyfer y gyllideb

Am 7.30